

Astudiaeth Achos Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant

Ymgynghoriad ar Wyliau Byr gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn credu'n angerddol mewn cynnal hawliau plant a phobl ifanc. Roedd eu cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Plant, ynghyd â chefnogaeth Uned Hawliau Plant Castell-nedd Port Talbot, yn awyddus i gasglu barn a phrofiadau plant a phobl ifanc ag anabledd a fu'n defnyddio'r gwasanaeth gwyliau byr yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Er mwyn darparu cynifer o gyfleoedd â phosibl i blant a phobl ifanc o bob gallu gael lleisio barn a chael gwrandawriad, gofynnwyd i rieni a gofalwyr eu cefnogi i rannu eu profiadau mewn nifer o ffyrdd difyr, fel a ganlyn:

Cerdyn Post

*Gofynnwyd i blant a phobl ifanc ddechmygu eu bod yn anfon cerdyn post o'u gwyliau byr. At bwy bydden nhw'n ei anfon? Beth fydden nhw'n ei ysgrifennu neu'n tynnu llun ohono am eu gwyliau?

Cystadleuaeth tynnu llun

*Gofynnwyd i blant a phobl ifanc dynnu llun beth wnaethon nhw ei fwynhau fwyaf am fynd ar wyliau byr.

Bwrdd dymuniadau

*Gofynnwyd i blant a phobl ifanc beth fyddai eu dymuniadau ar gyfer gwyliau byr?

Cafodd yr holl ymatebion eu cynnwys yn yr ymgynghoriad a'u defnyddio yn y broses gomisiynu i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

